------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Hydref 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# 22(v2)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiswyddo staff gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn dilyn pryderon mewn perthynas ag Uned Iechyd Meddwl Bryn Hesketh ym Mae Colwyn? EAQ(5)0054(FM)

## 3 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6111** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fod yn glir ynghylch cyllid ar gyfer prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig ar ôl mis Ionawr 2017 a darparu ffordd fwy rhyngweithiol i'r rhaglen bresennol.

2. Yn cadarnhau mai parhau'n rhan o'r farchnad sengl yw'r dewis gorau ar hyn o bryd i sicrhau mynediad heb dariff a chwota i'r farchnad honno.

3. Yn cydnabod pa mor bwysig yw gweithwyr mudol i'r economi wledig.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl 'Yn galw ar' a rhoi yn ei le:

'Lywodraeth y DU i roi gwarant diamod i ariannu pob prosiect a gontractiwyd o dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar ôl Datganiad yr Hydref tan 2023.'

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cadarnhau pa mor bwysig ydyw i fusnesau gwledig Cymru gael mynediad i'r farchnad sengl.

## 4 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6112** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pa mor bwysig yw stryd fawr fywiog ac amrywiol er mwyn cefnogi mentrau lleol.

2. Yn gresynu bod nifer y siopau gwag ar ein stryd fawr yn gyson uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU.

3. Yn gresynu at golli asedion cymunedol neu wasanaethau lleol o ganlyniad i'r defnydd ysgafn o'r stryd fawr yng Nghymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa newydd a fydd yn galluogi awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i gynnig cyfleusterau parcio am ddim mewn trefi ledled Cymru, a rhoi hwb hanfodol i adfywio canol trefi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnig hwb i'r stryd fawr yng Nghymru drwy lunio strategaeth adfywio hirdymor, yn ymgorffori polisi cynllunio, trafnidiaeth gyhoeddus, a meithrin cysylltiadau agosach rhwng busnesau manwerthu ac awdurdodau lleol.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Ym mhwynt 4, dileu 'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu' a rhoi yn ei le:

'Yn cytuno i edrych ymhellach ar briodoldeb sefydlu'.

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd busnesau sy'n cynnig gwasanaethau ar y stryd fawr.

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6109** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddirymu'r fenter 'hawl i brynu'.

2. Yn cydnabod bod 130,000 o deuluoedd wedi cael cyfle i brynu eu tŷ cyngor eu hunain ers i'r polisi 'hawl i brynu' gael ei gyflwyno yng Nghymru ym 1980, a bod angen ymddiried ym mhobl Cymru i benderfynu drostynt eu hunain ynghylch perchnogaeth tai.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod bod 'hawl i brynu' yn cynnig cyfle gwerthfawr i bobl brynu eu cartrefi eu hunain.

4. Yn credu y dylai'r targed blynyddol ar gyfer adeiladu tai fod o leiaf 14,000 o dai bob blwyddyn erbyn 2020, yn dilyn argymhellion Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr yn ei Rhaglen Lywodraethu: 2015 i 2020.

'FMB Programme for Government: 2015 to 2020' (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu'r cyfan ar ôl pwynt 1.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod pobl yn fwy tebygol o allu bod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain os yw'r economi yn gryfach, os yw cyflogaeth yn fwy sicr a bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud mwy i helpu pobl i aros yn eu cartrefi.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod nad perchnogaeth cartref yw'r unig opsiwn, ac y dylai cartrefi cymdeithasol gael yr un statws â pherchnogaeth cartref.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y gallai ailddosbarthu benthyciadau cymdeithasau tai fel dyled sector cyhoeddus gael effaith andwyol ar dargedau adeiladu tai, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu, gan gynnwys deddfu os oes angen, i sicrhau nad yw hyn yn cyfyngu ar allu cymdeithasau tai i gyllido adeiladu cartrefi newydd neu welliannau i gartrefi yng Nghymru.

## 6 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6110** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylid rhoi'r gorau i'r prosiect HS2 a defnyddio'r arbedion cyfalaf i wella'r rhwydwaith rheilffordd presennol, gan gynnwys:

(a) ariannu'r gwaith o drydaneiddio prif linell rheilffordd de Cymru yn llawn, ynghyd â phrosiect metro de Cymru; a

(b) diweddaru rhwydwaith rheilffordd gogledd Cymru yn eang.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod y manteision cymdeithasol ac economaidd a gaiff HS2 ar bobl canolbarth a gogledd Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydweithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU a chyrff trafnidiaeth rhanbarthol i sicrhau y caiff gwasanaethau ac amserlenni eu trefnu i sicrhau manteision gorau HS2 i bobl canolbarth a gogledd Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod y manteision cymdeithasol ac economaidd a gaiff HS2 ar bobl canolbarth a gogledd Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydweithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU a chyrff trafnidiaeth rhanbarthol i sicrhau y caiff gwasanaethau ac amserlenni eu trefnu i sicrhau manteision gorau HS2 i bobl canolbarth a gogledd Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU:

(a) i gyhoeddi amserlen ar gyfer trydaneiddio prif linell de Cymru hyd at Abertawe;

(b) i ariannu'n llawn y gwaith o drydaneiddio prif linell gogledd Cymru a llinellau cymoedd y de;

(c) i warantu holl arian yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Metro De Cymru; ac

(d) i gychwyn trafodaethau ar drosglwyddo'r cyllid a'r cyfrifoldeb am y seilwaith rheilffyrdd i Weinidogion Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn credu mai prosiect seilwaith i Loegr yn unig yw prosiect HS2 ac y dylai Cymru dderbyn cyllid canlyniadol Barnett sy'n adlewyrchu hyn.

2. Yn credu y dylai'r cyllid a dderbynnir fel cyllid canlyniadol Barnett gael ei ddefnyddio i greu seilwaith trafnidiaeth effeithiol sy'n cysylltu holl ranbarthau Cymru â'i gilydd, ac y dylai hyn gynnwys y prosiectau canlynol:

(a) gwella cysylltiadau trafnidiaeth o fewn Cymru; gwella cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de; a chreu rhwydweithiau rhanbarthol yn ein prif ardaloedd trefol fel prosiect metro de Cymru a phrosiect metro eang yng ngogledd Cymru;

(b) atebion trafnidiaeth sy'n addas i Gymru wledig a'i heriau demograffig a daearyddol penodol; ac

(c) trydaneiddio prif linellau rheilffordd gogledd a de Cymru, a gwaith diweddaru eang ar rwydwaith ffyrdd ehangach Cymru.

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6108** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Diogelwch, storio a gwaredu biomas a chynnyrch pren halogedig gan gwmni South Wales Wood Recycling.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 11 Hydref 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Medi 2016 i'w hateb ar 5 Hydref 2016

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1.** Leanne Wood (Rhondda): Pa waith sydd ar y gweill gan y Gweinidog i wella trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(5)0049(EI)

**2.** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni) A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau bach yng Nghymru? OAQ(5)0052(EI)

**3.** Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu economaidd a seilwaith yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0045(EI)

**4.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau ffyniant economaidd yng Nghymru? OAQ(5)0043(EI)

**5.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei sectorau blaenoriaeth ar gyfer datblygu economaidd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0050(EI)

**6.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Sut y bydd y polisïau yn rhaglen Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen', yn gwella cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru? OAQ(5)0039(EI)

**7.** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chynrychiolwyr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru? OAQ(5)0046(EI)

**8.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r trefniadau tollau ar Bont Hafren ddychwelyd i'r sector cyhoeddus? OAQ(5)0040(EI)

**9.** Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i gefnogi'r sector treftadaeth yng Nghymru? OAQ(5)0048(EI)

**10.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r diwydiant TGCh yng Nghymru? OAQ(5)0038(EI)

**11.** Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno wi-fi cyhoeddus yng nghanolbarth Cymru? OAQ(5)0051(EI)

**12.** Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer economi gogledd Cymru? OAQ(5)0044(EI)**W**

**13.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran sefydlu banc datblygu i Gymru OAQ(5)0047(EI)

**14.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau ynghylch Pride Cymru 2017? OAQ(5)0041(EI)

**15.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth Cymru i droi'r A477 dros Bont Cleddau yn gefnffordd? OAQ(5)0042(EI)**W**

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau dulliau atal salwch yng Nghymru? OAQ(5)0040(HWS)

**2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth Llywodraeth Cymru o ran gwasanaethau iechyd ledled Sir Benfro? OAQ(5)0038(HWS)

**3.** Leanne Wood (Rhondda): Pa waith y mae'r Gweinidog yn ei wneud i ddenu meddygon i Gymru? OAQ(5)0050(HWS)

**4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu telefeddygaeth? OAQ(5)0041(HWS)**W**

**5.** Lynne Neagle (Torfaen): Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i ddarparu gwasanaethau iechyd o safon uchel yn Nhorfaen? OAQ(5)0049(HWS)

**6.** Vikki Howells (Cwm Cynon): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau i bobl y mae tiwmorau niwroendocrin yn effeithio arnynt? OAQ(5)0043(HWS)

**7.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi ffitrwydd corfforol Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0047(HWS)

**8.** Huw Irranca-Davies (Ogwr): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am anghenion gofal sylfaenol poblogaethau Llanharan a Phencoed? OAQ(5)0051(HWS)

**9.** Vikki Howells (Cwm Cynon): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghwm Cynon? OAQ(5)0042(HWS)

**10.** Lee Waters (Llanelli): Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r pwysau sydd ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed? OAQ(5)0053(HWS)

**11.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru o ddefnyddio unedau mân anafiadau i gwrdd a'r galw am ofal sydd heb ei drefnu? OAQ(5)0052(HWS)**W**

**12.** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau dilynol? OAQ(5)0039(HWS)

**13.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Sut y bydd y polisïau yn rhaglen Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen', yn mynd i'r afael â chaethiwed i gyffuriau ac alcohol yng Nghymru? OAQ(5)0037(HWS)

**14.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i wella gofal newyddenedigol yng Nghymru? OAQ(5)0046(HWS)

**15.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd gwelyau mewn ysbytai cymunedol? OAQ(5)0045(HWS)**W**